Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymateb

# Setliad Dros Dro

# Llywodraeth Leol 2023-2024

**Rhestr o'r ymatebion a ddaeth i law oddi wrth:**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Sir Penfro
Cymdeithas Chwaraeon Cymru
Community Leisure UK – Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)

<u>Crynodeb o'r Prif Sylwadau</u>

***DS: Mae'r canlynol yn adlewyrchu barn a dehongliadau'r ymatebwyr fel y'u nodir yn eu hymatebion.***

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen - Setliad Dros Dro o 7.5%**

Mae'r cyngor yn dweud bod gwaith partneriaeth parhaus rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol wedi bod yn allweddol wrth helpu'r awdurdodau i lywio eu ffordd drwy'r cyfnod anodd a heriol hwn, ac mai ymddiriedaeth a bod yn agored fu conglfaen eu hymateb i'r pandemig, chwyddiant cynyddol a'r argyfwng costau byw.

Mae lefel yr ymgysylltu cadarnhaol ar lefel wleidyddol ac ar lefel swyddogion wedi bod yn sylweddol ac mae wedi arwain at ganlyniadau llawer gwell ac maent yn cydnabod y cymorth ariannol sylweddol gan Lywodraeth Cymru.

Mae eu heriau tymor canolig yn parhau i fod yn sylweddol ac mae'r angen i weithio mewn partneriaeth yn parhau i fod yn bwysig. I'w galluogi i wneud hyn, mae angen cyllid i gynnal a chaniatáu buddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.

Yn dilyn setliad sylweddol 2022-23, mae setliad dros dro 2023-24 yn newyddion da dros ben i lywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r cynnydd mewn cyllid craidd yn dangos bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymddiried mewn llywodraeth leol i fuddsoddi mewn dyheadau cyffredin. Maent yn cydnabod y nodiadau rhybuddiol yn y naratif sy'n cyd-fynd â'r setliad a byddant yn eu cymryd i ystyriaeth yn llawn yn eu trafodaethau ar y gyllideb.

Ni fydd modd osgoi'r holl ddewisiadau anodd a achosir gan y pwysau enfawr ar gyllidebau ond bydd yn eu galluogi i weithio i gydbwyso eu cyllideb tra'n cadw'r effeithiau ar wasanaethau hanfodol mor isel â phosibl a chadw'r dreth gyngor mor isel â phosibl.

Maent yn croesawu cynnwys cyllid ymlaen llaw. Er hynny, byddai manylion lefel grant yr awdurdodau unigol yn eu cynorthwyo ymhellach byth yn eu cynllunio tymor canolig.

Mae eleni wedi dangos unwaith eto fanteision cydweithio ac mae Torfaen wedi ymrwymo o hyd i weithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni dyheadau cyffredin ar gyfer eu dinasyddion.

**Cyngor Sir Ceredigion - Setliad Dros Dro o 8.2 %**

Mae'r Cyngor yn croesawu'r cynnydd yn eu setliad yn enwedig yng ngoleuni'r dangosydd o gyllid y llynedd. Er hynny, mae pwysau costau a chynnydd yn y galw am wasanaethau yn uwch na'r ffigurau hyn, a amcangyfrifir yn £22m ar gyfer 2023-24. Hyd yn oed gyda'r cynnydd mewn cyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru bydd ganddynt ddiffyg ariannol sylweddol o hyd.

Roedd ystyriaethau set ddata'r boblogaeth gan yr Is-grŵp Dosbarthu yn canolbwyntio ar dri dewis ar gyfer y setliad a oedd yn cynnwys (i) defnyddio data Cyfrifiad 2021 yn llawn; (ii) defnyddio'r data hwnnw

a defnyddio effaith leddfu i leihau goblygiadau ariannol sylweddol i gynghorau yr effeithir arnynt, a (iii) defnyddio cyfartaledd data Cyfrifiad 2021 ac amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2018 ar gyfer 2023. Maent yn dweud eu bod wedi dioddef yn ystod y blynyddoedd diwethaf wrth i amcanestyniadau o'r boblogaeth gan ONS yn 2018 orddatgan y dirywiad ym mhoblogaeth Ceredigion.

Oherwydd y set ddata o boblogaeth 2021-22 yn bennaf fe'i rhoddwyd yn y safle isaf yn y tablau ac fe gafodd y setliad gwaethaf yng Nghymru ar gyfer 2021-22 ac roedd wedi gobeithio y byddai set ddata ddiweddaraf Cyfrifiad 2021 wedi cael ei defnyddio yn y setliad eleni. Er bod y trydydd opsiwn, uchod, yn bragmataidd ac er i'r penderfyniad gael ei wneud drwy broses yr Is-Grŵp Dosbarthu, maent yn teimlo ei fod wedi bod yn andwyol i'w Trethdalwyr ar gyfer 2023-24 ac am o leiaf y ddwy flynedd ariannol flaenorol. Maent yn annog Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r setiau data diweddaraf o'r boblogaeth lle bo modd (h.y. Cyfrifiad 2021) a bod allanolynnau sylweddol yn cael eu trin drwy ystyriaethau cyllid gwaelodol.

Mae trosglwyddo cyllid ar gyfer costau cyflogwr uwch sy'n gysylltiedig â phensiynau Awdurdodau Tân yn ymddangos yn niwtral o ran cost. Er hynny mae angen ystyried y sgil-effeithiau dosbarthu ac effaith bunt am bunt ei drosglwyddo i'r setliad. Maent yn siomedig ei fod yn cael ei ystyried mor hwyr heb eu hysbysiad nac ymgynghoriad ymlaen llaw. Maent yn awgrymu hefyd fod Llywodraeth Cymru'n ailystyried a ddylai Awdurdodau Tân fod yn gyrff praeseptio yn yr un ffordd ag Awdurdod yr Heddlu a Chynghorau Tref a Chymuned.

Gyda chynnydd cyfartalog setliad 2024-25 wedi'i ddynodi'n rhyw 3.1% mae'n parhau i fod yn destun pryder. Er y rhagamcanir y bydd chwyddiant yn dechrau gostwng yn sylweddol, mae risgiau'n parhau mewn perthynas â chostau dyfarnu cyflog sy'n cael eu gyrru'n rhannol gan bolisi presennol Llywodraeth y DU ar gyfer yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol i gynyddu i ddwy ran o dair o enillion canolrifol. Mae ansicrwydd parhaus o ran rhagamcanu lefelau Tâl Athrawon gan fod cyllid yn cael ei ddyrannu yn y setliad cyn i Gynghorau wybod beth fydd y canlyniad mewn gwirionedd ar gyfer y mis Medi canlynol. Maent yn annog bod cyllid Llywodraeth Leol yn parhau i gael ei flaenoriaethu ar gyfer 2024-25 gan sicrhau, lle bynnag y bo modd, fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i gyllido yn uwch na'r lefel ddangosol o 3.1.

Mae heriau ym maes Gofal Cymdeithasol yn parhau ac mae rhaid i ymrwymiad Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyflog byw gwirioneddol i Weithwyr Cymdeithasol Cofrestredig barhau fel ymrwymiad a ariennir yn llawn o 100%, polisi a ddeddfwyd ar lefel genedlaethol. Yn seiliedig ar gyfrifiadau cychwynnol, byddai lefel eu gofynion cyllido yn golygu diffyg a chyda'r tebygolrwydd o gynnydd sylweddol pellach yn y Cyflog Byw Gwirioneddol, mae'n bosibl na fydd digon o gyllid yn cael ei ddarparu i allu parhau i gyflawni'r polisi hwn.

Mae costau ynni'n parhau fel pwysau cost sylweddol yn enwedig ar gyfer gwasanaethau statudol hanfodol allweddol. Mae'r Cyngor yn annog Llywodraeth Cymru i lobïo Llywodraeth y DU i sicrhau bod pecynnau cymorth penodol i'r Awdurdodau Lleol yn cael eu rhoi ar waith os na fydd costau ynni'n dechrau gostwng yn sylweddol.

O'i gymharu â'u gofyniad cyllidebol ar gyfer 2022-23 o £6.3m a chyn cynnwys ystyriaethau 2023-24, mae ganddynt ddiffyg sylweddol o dros £1.1 miliwn yn ffigur Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor o dan yr Asesiad o Wariant Safonol. Nid yw'r cynllun yn cael ei ariannu'n llawn o bell ffordd ac mae angen i Lywodraeth Cymru gydnabod mai cynllun lleol ydyw i raddau helaeth, heb fawr o ddisgresiwn lleol. Lle mae'r disgresiwn lleol hwnnw'n cael ei arfer, nid yw ond yn ychwanegu costau ychwanegol bach iawn.

Maent yn siomedig gyda lefel y cyllid cyfalaf gan nad oes unrhyw gyllid ychwanegol newydd wedi'i ddarparu er bod y cynnydd o £30m ar draws Cymru yn cyd-fynd â chyhoeddiadau blaenorol. Maent yn croesawu ac yn edrych ymlaen at allu gwneud cais am y buddsoddiad o gyllid cyfalaf o £20m ar gyfer prosiectau Datgarboneiddio. Er hynny, mae'n debygol y bydd angen lefel sylweddol o fuddsoddiad pellach os bwriedir cyrraedd y targed sero net o 2030.

**Cyngor Sir Penfro - Setliad Dros Dro o 7.9%**

Mae'r Cyngor yn sylweddoli ei bod hi wedi bod yn flwyddyn ddigynsail arall gydag effeithiau parhaus y pandemig a'r argyfwng costau byw presennol. Maent yn cydnabod bod amseriad Datganiad yr Hydref Llywodraeth y DU wedi achosi oedi wrth gyhoeddi'r setliad dros dro, ond yn gobeithio y bydd modd ei gael ym mis Hydref a'r setliad terfynol ym mis Rhagfyr yn y blynyddoedd i ddod.

Maent yn croesawu eu cynnydd ariannol 2023-24 a fydd yn cyfrannu at ddelio â'u pwysau ariannol; y mwyaf sylweddol o'r rhain yw Gofal Cymdeithasol Oedolion a Phlant ac Addysg. Er hynny, hyd yn oed gyda'r cyllid hwn a chynyddu'r Dreth Gyngor rhwng 5% a 10%, bydd angen iddynt barhau i wneud arbedion yn y gyllideb o hyd neu ddefnyddio cronfeydd wrth gefn o rhwng £11.6m a £15.1m.

Mae eu pwysau ariannol yn parhau dros y tymor canolig, yn enwedig mewn Gofal Cymdeithasol ac Addysg, a byddent yn croesawu'r cyfle i weithio gyda'r Gweinidog i nodi model ariannu mwy cynaliadwy yn ariannol i'r dyfodol. Ar sail yr amcanestyniadau ariannol presennol ar gyfer 2024-25, ni fydd y codiad dangosol o 3.1% yn y setliad ond yn darparu lefel debyg o gyfraniad at eu pwysau ariannol fel yn 2022-23.

Maent yn croesawu darparu dyraniadau cyllid refeniw craidd Cymru gyfan a grantiau cyfalaf a refeniw ar gyfer 2024-25 gan ei fod yn darparu lefel o sicrwydd ar gyfer cynllunio ariannol tymor canolig.

Maent yn nodi bod y nifer sylweddol o grantiau refeniw penodol yn parhau ond hoffent iddynt gael eu cynnwys yn y setliad fel cyllid heb ei neilltuo a fyddai'n lleihau baich gweinyddu'r grant ac yn cynorthwyo eu cynllunio ariannol. Maent yn croesawu unrhyw gyllid grant annisgwyl ond mae cael gwybod amdano ym misoedd olaf y flwyddyn ariannol a gorfod ei wario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol yn gallu bod yn anodd ac felly maent yn gofyn am gael gwybod amdano ar y cyfle cyntaf er mwyn cynllunio'n effeithiol.

Er bod cyllid Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS) yn cael ei gynnal ar gyfer 2023-24, i bob pwrpas mae'n ostyngiad blynyddol arall y gallai fod yn heriol delio ag ef yn yr argyfwng costau byw presennol. Mae eu costau CTRS yn £2m yn fwy na'r cyllid a dderbyniwyd, felly hoffent weld y cyllid yn cynyddu i lefel lle mae CTRS yn cael ei ariannu'n llawn.

Maent yn deall na ddylai fod pwysau ariannol ychwanegol ar yr awdurdodau ynghylch y bwriad i drosglwyddo'r cynnydd yng nghostau cyflogwyr yr Awdurdod Tân ac Achub (FRA) i'r setliad. Ni chyfeiriwyd at hyn yn y setliad dros dro. Felly bydd baich ariannol ychwanegol ar yr Awdurdodau Tân ac Achub gan arwain at godiadau pellach yn yr ardoll a phwysau ariannol ychwanegol ar yr awdurdodau lleol. Maent yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn ychwanegu cyllid ychwanegol at y setliad terfynol i wneud yn iawn am y trosglwyddiad hwn.

Mae Sir Benfro yn dweud y gallai'r setliad arfaethedig gynnig cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae'r "dull partneriaeth" rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r awdurdodau lleol wedi gweithio'n dda ac fe ddylai barhau yn y dyfodol er budd llywodraeth leol yng Nghymru.

**Cymdeithas Chwaraeon Cymru (WSA)**

Wrth i Gymdeithas Chwaraeon Cymru ddod allan o'r pandemig ac i mewn i'r argyfwng costau byw, mae pwysau cynyddol costau ynni ar eu seilwaith chwaraeon yn eu rhoi o dan straen sylweddol. Ni fydd gwasanaethau hamdden yn gallu amsugno cynnydd sylweddol mewn ynni heb iddo effeithio ar wasanaethau.

Efallai fod y setliad Llywodraeth Leol, sy'n well na'r disgwyl, fod wedi lleddfu rhai risgiau ond bydd 2023-24 yn anodd iawn ar gyfer gwasanaethau anstatudol wrth i brisiau barhau i godi. Er bod cyllid wedi cynyddu i'r Awdurdodau Lleol, maent yn rhagweld y bydd hyn yn cael ei flaenoriaethu tuag at wasanaethau statudol, a hynny ar draul gweithgarwch hamdden a chorfforol.

Nododd WSA i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol awgrymu ym mis Rhagfyr 2021 y dylid defnyddio'r cynnydd yn y cyllid ar gyfer Awdurdodau Lleol i gefnogi sectorau sy'n dal i deimlo effaith y pandemig. Hyd y gwyddant, ymddengys mai ychydig iawn yn unig sydd wedi bod ar gael i'r sector chwaraeon a hamdden er gwaethaf gostyngiad yn nifer y cwsmeriaid ac arafwch wrth adfer lefelau gweithgarwch blaenorol.

Gan nad yw Cynllun Gostyngiadau Biliau Ynni Llywodraeth y DU yn cynnwys canolfannau hamdden, maent yn hynod o ddiolchgar bod Llywodraeth Cymru wedi nodi cefnogaeth i ddod â hamdden i mewn i'r cynllun.

Heb gyllid penodol wedi'i dargedu y tu hwnt i'r setliad, bydd yn anodd i wasanaethau hamdden cyhoeddus Cymru ymdopi yn y flwyddyn ariannol nesaf oherwydd cynlluniau posibl i leihau oriau agor, cau canolfannau hamdden, cynyddu ffioedd a thaliadau, ynghyd â heriau parhaus o ran recriwtio.

Bydd colli gwasanaethau drwy gau canolfanau, oriau agor llai neu 'resymoli' yn niweidiol i iechyd a llesiant y genedl ac yn groes i'r ymrwymiadau yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd yn effeithio ar bob aelod, gyda lleoedd fforddiadwy a diogel i gadw'n heini ac yn egnïol yn anoddach i ddod o hyd iddynt yn enwedig yn y gaeaf.

Maent yn ymwybodol bod pobl Cymru'n gwneud llai o chwaraeon a gweithgarwch corfforol oherwydd pwysau costau ac y bydd hyn yn gwaethygu os bydd y ddarpariaeth o wasanaethau hamdden yn parhau i ddod o dan bwysau. Yn y tymor hir, bydd costau'r GIG a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn cynyddu.

Maent yn dweud nad yw'r setliad llywodraeth leol presennol yn mynd i'r afael â'r problemau sydd yn i'w gweld yn y sector chwaraeon a hamdden.

**Community Leisure UK - Cymru**

Mae'r ymddiriedolaethau hamdden a diwylliant yng Nghymru yn sefydliad elusennol a dielw sy'n darparu hamdden cyhoeddus hanfodol, chwaraeon, gweithgarwch corfforol, llyfrgelloedd a gweithgareddau diwylliannol a chelfyddydol i gymunedau ledled Cymru a hynny gydag adnoddau prin mewn cydweithrediad â llywodraeth leol.

Mae'r sector hamdden a diwylliant cyhoeddus mewn argyfwng ar hyn o bryd ac mae arno angen cymorth ychwanegol odi wrth Lywodraeth Cymru. Mae Ymddiriedolaethau elusennol yn bartneriaid allweddol i lywodraeth leol ac yn ei chefnogi wrth gyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae setliad llywodraeth leol yn rhoi cyfle hanfodol i gadarnhau cefnogaeth y mae ar yr ymddiriedolaethau hyn ei hangen.

Mae'r sectorau hyn yn dal i ddelio ag effaith y pandemig ac mae arnynt angen cymorth ychwanegol i ymdopi â'r argyfwng costau byw. Mae'r cydgysylltu a'r cydweithio rhwng yr adrannau Diwylliant a Chwaraeon, yr Economi, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ogystal â Llywodraeth Leol, yn allweddol i fynd i'r afael â'r argyfwng. Nododd dadansoddiad o'u haelodau yng Nghymru tua diwedd 2022, fod 60% naill ai mewn argyfwng neu ar fin wynebu un. Yn dilyn y cyhoeddiad am y Cynllun Rhyddhad ar Filiau Ynni ym mis Ionawr 2023, roedd hyn wedi cynyddu i 70%.

Mae mwyafrif uchel o'u haelodau wedi rhagamcanu diffyg yn y gyllideb erbyn diwedd 2022-23. Mae ymddiriedolaethau hamdden yn unig yn rhag-weld diffyg cyfunol o dros £5.4 miliwn gydag un Ymddiriedolaeth yn dweud y bydd angen ad-drefnu staff yn sylweddol ynghyd â diswyddiadau tebygol.

Gan eu bod yn ddibynnol ar lefelau cymorth gan yr awdurdodau lleol, nid oes unrhyw amcanestyniadau ariannol ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf a disgwylir toriadau eang i wasanaethau gyda llai o gymorth ariannol gan gynghorau. Maent felly yn wynebu penderfyniadau anodd ynghylch hyfywedd sefydliadau yn y dyfodol ac ansicrwydd a fyddant yn gallu dweud eu bod yn sefydliadau hyfyw y flwyddyn nesaf.

Maent yn cydnabod bod llywodraeth leol, fel eu partneriaid allweddol, hefyd yn wynebu pwysau sylweddol gyda'u cynllunio ariannol a'u cyllidebu. Mae'r cynnydd yng nghyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei groesawu ond maent yn adleisio rhybudd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y bydd penderfyniadau anodd yn parhau oherwydd amgylchiadau economaidd heriol parhaus.

Cafodd rhyddhad ardrethi annomestig Llywodraeth Cymru i fusnesau manwerthu, hamdden, a lletygarwch ei groesawu hefyd ond ni fydd yn darparu fawr ddim rhyddhad i'w haelodau mewn elusennau a mentrau cymdeithasol gan eu bod eisoes yn cael rhyddhad ardrethi busnes.

Maent yn annog y Gweinidog i ystyried cadarnhau'r cynnydd mewn cyllid refeniw ac i annog llywodraeth leol i fuddsoddi mewn hamdden a diwylliant cyhoeddus fel

gwasanaethau hanfodol yn unol â'u cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Maent am i gymorth diriaethol gael ei nodi ar yr hyn a gaiff ei ddarparu i wasanaethau hamdden a'r sector celfyddydau a diwylliant ehangach a'r cymorth a ddarperir i ymdopi â'r argyfwng ynni i gadw cyfyngiadau gwasanaethau a chau cyfleusterau i'r lleiaf posibl. Dylid cydnabod rôl unigryw elusennau a mentrau cymdeithasol yn yr economi gyda chymorth yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer darparu'r gwasanaethau cyhoeddus hynny ar gyfer cymunedau o'r fath.

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)**

Roedd eu hagwedd bositif at y setliad dros dro yn crynhoi'r farn ar draws cynghorau yng Nghymru ac fe gafodd ei hadlewyrchu yng nghyfarfod Bwrdd Gweithredol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ym mis Rhagfyr. Er hynny, bydd yr awdurdodau lleol yn dal i orfod gwneud penderfyniadau anodd gan fod y diffyg cronnus cyn y cais am y dreth gyngor tua £600m dros y 2 flynedd nesaf. Mae risgiau sylweddol i wasanaethau lleol o hyd ac mae'r rhagolygon ar gyfer chwyddiant yn parhau i fod yn ansicr.  Bydd y setliad gwell yn cael effaith gadarnhaol ar wasanaethau lleol ac ar allu cynghorau i wneud penderfyniadau cadarnhaol i fodloni pwysau cyllidebol ac yn helpu yn eu cynlluniau tymor hwy ar gyfer dyfodol gwasanaethau a chymunedau lleol. Roeddent yn falch bod arwydd gwell ar gyfer 2024-25 gan roi mwy o sicrwydd wrth symud ymlaen. Mae'r dyraniad dangosol yn is na'r amcangyfrifon presennol ar gyfer pwysau ond byddant yn parhau gyda'u deialog ynghylch hyn yn ystod y misoedd i ddod.

Maent yn parhau i bryderu am nifer a gwerth grantiau penodol.  Nodwyd bod materion gofal cymdeithasol yn cael sylw yn y pecyn cyllido ond ni ellir anwybyddu cynaliadwyedd tymor hwy'r gwasanaethau hanfodol hyn. Croesawyd y cyllid i ddarparu cyflog byw gwirioneddol gan bawb. Er hynny, mae un o risgiau'r setliad o hyd yw'r rhagdybiaethau ynghylch tâl addysgu a thâl nad yw'n dâl addysgu. Mae lefel y dyfarniadau hyn yn anodd ei rhag-weld a byddent yn hoffi parhau i gynnal trafodaethau agored gyda'r undebau er bod y cyd-destun yn heriol.

Roedd yn galondid i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru weld lefelau ariannu cyfalaf yn cael eu hadfer o'i gymharu â'r gostyngiad yn Setliad y llynedd o gofio pwysigrwydd adfer cyllid i'r economi ar ôl y pandemig . Mewn termau real, er hynny, mae'r dyraniadau'n dal i fod yn sylweddol llai na'r lefelau cyn cyni gyda chwyddiant cyfredol yn erydu'r pŵer gwario ymhellach byth.

Roeddent yn ddiolchgar am yr ymgysylltu rhwng swyddogion CLlLC a Llywodraeth Cymru o dan amgylchiadau heriol iawn, sydd wedi sicrhau ymateb ar y cyd wrth ymateb i'r heriau presennol.